**Ymateb y Llywodraeth i'r nodyn a luniwyd gan y Gwasanaethau Cyfreithiol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) ar Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020, dyddiedig 15 Ebrill 2020**

## 1. Amseriad gosod gerbron y Cynulliad

1.1. Mae Gwasanaethau Cyfreithiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi nodi i'r Rheoliadau ddod i rym ar 26 Mawrth am 4:00p.m., ond iddynt gael eu gosod ar ôl yr amser hwn (27 Mawrth).

1.2. Unwaith bod Offeryn Statudol wedi ei wneud, rhaid iddo gael ei gofrestru â'r Cofrestrydd Offerynnau Statudol (yn yr Archifau Gwladol) a rhaid i fersiwn swyddogol gael ei pharatoi i'w gosod. O dan yr amgylchiadau arferol, gall y broses hon gymryd hyd at 48 awr. Er bod y Cofrestrydd OSau yn gallu cyflymu'r broses o gofrestru a pharatoi'r fersiwn swyddogol o'r Rheoliadau hyn yng ngoleuni natur deddfwriaeth frys, ni chwblhawyd y broses o gofrestru'r offeryn tan ar ôl i'r Swyddfa Gyflwyno gau ar 26 Mawrth.

1.3. Er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn gallu gweld yr offeryn cyn iddo gael ei osod, sicrhaodd y Cofrestrydd OSau iddo gael ei gyhoeddi ar wefan legislation.gov.uk, a sicrhaodd Llywodraeth Cymru iddo gael ei gyhoeddi ar wefan llyw.cymru, ar noson 26 Mawrth.

## 2. Hawliau dynol

2.1. Mae Gwasanaethau Cyfreithiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi nodi ei bod yn bosibl y bydd yr Aelodau yn dymuno ceisio eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch ei hasesiad o'r ymyrraeth ag Erthyglau amrywiol o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

2.2. Mae'r gofynion a'r cyfyngiadau yn y Rheoliadau yn ymyrryd â hawliau unigolyn o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Fodd bynnag, i'r graddau y maent yn gwneud hynny, mae'r Llywodraeth yn ystyried bod modd cyfiawnhau ymyrraeth o'r fath at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a chaniateir yr ymyrraeth ar y sail ei bod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd.

2.3. Mae'r Llywodraeth yn ystyried bod y darpariaethau yn y Rheoliadau yn gymesur ac yn angenrheidiol. Er bod y Rheoliadau yn atal person rhag gadael y man lle y mae'n byw oni bai bod ganddo esgus rhesymol, maent yn nodi rhestr nad yw'n hollgynhwysol o'r esgusodion rhesymol y caiff pobl ddibynnu arnynt. Mae'r Rheoliadau hefyd yn atal cynulliadau cyhoeddus, unwaith eto yn ddarostyngedig i nifer o eithriadau hanfodol, sy'n sicrhau bod y darpariaethau yn gymesur.

2.4. Mae'r Rheoliadau yn cael effaith i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a chyrff eraill gau llwybrau troed a thir mynediad penodol, y maent yn ystyried bod pobl yn tueddu i ymgynnull ynddynt, er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19. Mae'r

Rheoliadau yn caniatáu'n benodol i bobl adael eu cartrefi i wneud ymarfer corff, ond dylent wneud hynny yn agos at eu cartref.

2.5. Mae'r Rheoliadau yn cael effaith i gau'r busnesau a'r mannau a restrir (rhai nad ydynt yn hanfodol yn y bôn) y mae aelodau'r cyhoedd yn debygol o ymgynnull ynddynt, gan leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19. Ond maent yn galluogi pob busnes arall i aros ar agor, ar yr amod bod y rheini sy'n gyfrifol am y busnesau hynny neu'r gwaith a wneir yn cymryd pob mesur rhesymol i roi mesurau yn eu lle i gynnal pellter corfforol. Maent hefyd yn cau siopau nad ydynt yn hanfodol, ond yn caniatáu iddynt barhau i fasnachu ar lein, neu drwy'r post neu dros y ffôn. Mae'r Llywodraeth yn ystyried bod hyn yn gymesur er mwyn helpu i reoli'r argyfwng iechyd sydd wedi ei greu gan yr epidemig COVID-19.

2.6. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gosod dyletswydd benodol ar Weinidogion Cymru i adolygu'r angen am y gofynion a'r cyfyngiadau bob 21 o ddiwrnodau, yn ogystal â'i gwneud yn ofynnol iddynt derfynu ar unrhyw adeg, drwy gyfarwyddydau, unrhyw gyfyngiadau neu ofynion nad ydynt yn angenrheidiol mwyach.

## 3. Pwerau galluogi

3.1. Mae Gwasanaethau Cyfreithiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi gofyn pam na ddibynnodd Gweinidogion Cymru ar y pŵer galluogi sydd wedi ei gynnwys yn adran 45C(4)(d) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 i wneud y Rheoliadau.

3.2. Mae'r pŵer i wneud y Rheoliadau yn seiliedig ar adran 45C(1) o Ddeddf 1984. Mae is-adran (3) o'r adran honno wedyn yn rhoi enghreifftiau o'r ffordd y caniateir defnyddio'r pŵer hwnnw. Mae'r holl ddarpariaethau o sylwedd yn y Rheoliadau yn dod o fewn is-adran (3)(c), ac felly dyfynnir y ddarpariaeth honno fel rhan o'r pŵer galluogi. Mae is-adran (4) wedyn yn mynd ymlaen i roi enghreifftiau o'r mathau o ddarpariaeth y caniateir eu gwneud o dan yr enghraifft a roddir yn is-adran (3)(c).

3.3. Mae'r pŵer yn is-adran (1) ynghyd â'r enghraifft yn is-adran (3)(c) yn fwriadol fras. Mae'n glir o'r deunydd sy'n gysylltiedig â phasio Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (a fewnosododd Ran 2A yn Neddf 1984) y bwriedir i'r pwerau hyn fod yn bellgyrhaeddol[1].

3.4. Ym marn y Llywodraeth, ni fyddai'n ddefnyddiol nac yn gywir cyfeirio at adran 45C(4) o Ddeddf 1984 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r enghreifftiau a roddir yn yr is-adran honno yn benodol ac nid ydynt yn adlewyrchu natur bellgyrhaeddol y darpariaethau o sylwedd yn y Rheoliadau; darpariaethau yr ystyriwn eu bod yn angenrheidiol ac yn gymesur yng ngoleuni natur yr argyfwng iechyd presennol ac yn unol â'r math o ddarpariaeth a ragwelwyd gan Senedd y Deyrnas Unedig pan ddeddfodd Ran 2A o Ddeddf 1984.

[1] Gweler, er enghraifft, yr araith gan yr Arglwydd Darzi o Denham yn Ail Ddarlleniad y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Nhŷ'r Arglwyddi, 25 Mawrth 2008, colofn Hansard 452 https://hansard.parliament.uk/Lords/2008-03-25/debates/0803256000002/HealthAndSocialCareBill

3.5. Er enghraifft, nid oes unrhyw reswm dros ddyfynnu is-adran (4)(d) ond nid is-adran (4)(b). A beth bynnag, nid yw dyfynnu'r ddwy hyd yn oed yn adlewyrchu'n uniongyrchol gynnwys y Rheoliadau.

3.6. Yn ogystal, nid yw'r glir bod yr enghraifft a roddir yn is-adran (4)(d) yn ei gwneud yn ofynnol i'r pethau y cyfeirir atynt fel "special restrictions" fod yn ddarostyngedig i'r amodau a atodir iddynt yn adran 45G, 45H neu 45I. Gan gymryd yr enghraifft o gau mangre o dan adran 45I(2); mae hyn yn amodol ar fod yn fodlon, ymhlith pethau eraill, fod y fangre wedi ei heintio neu ei halogi. Nid dyna'r sail y mae'r Rheoliadau yn gosod cyfyngiadau ar fangreoedd arni. Mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth gymesur o dan amgylchiadau'r pandemig hwn i leihau lledaeniad y feirws drwy gysylltiad rhwng personau ac i leihau'r pwysau ar wasanaethau hanfodol drwy gyfyngu ar weithgarwch yn gyhoeddus, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn canolbwyntio ar ddelio â'r rheini sydd wedi eu heintio neu sy'n wynebu risg benodol os cânt eu heintio.

3.7. Rydym felly o'r farn bod y Rheoliadau wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau sy'n adlewyrchu cynnwys y Rheoliadau yn gywir.

## 4. Rheoliad 7(4) a 7(5)(b) – anghysondebau rhwng y Gymraeg a'r Saesneg

4.1. Mae Gwasanaethau Cyfreithiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi nodi anghysondeb posibl yn rheoliad 7(4) a 7(5)(b) o destun Cymraeg y Rheoliadau.

4.2. Mae'r Llywodraeth yn cytuno â'r pwyntiau a godwyd, a bydd yn manteisio ar y cyfle i ddiwygio'r ddau reoliad pan fydd cyfrwng deddfwriaethol addas ar gael.

## 5. Cymhariaeth â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau) (Lloegr) 2020

5.1. Mae Gwasanaethau Cyfreithiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi nodi nifer o wahaniaethau rhwng y Rheoliadau i Gymru a'r ddarpariaeth gyfatebol i Loegr. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i sicrhau ymateb cydgysylltiedig i'r pandemig. Fodd bynnag, mae'r pwerau yn Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 wedi eu rhoi i Weinidogion Cymru o ran Cymru fel y gall darpariaeth gael ei gwneud sy'n addas yn benodol i'r amgylchiadau yng Nghymru ac sy'n seiliedig ar benderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

5.2. Er enghraifft, er mwyn pwysleisio natur gyfyngedig yr esgus rhesymol i adael y man lle y mae person yn byw i wneud ymarfer corff, ystyriwyd ei bod yn briodol cyfeirio'n benodol at gyfyngiad o wneud ymarfer corff ddim mwy nag unwaith y dydd.

5.3. Yn yr un modd, cydnabyddir bod mynd i angladdau yn rhan bwysig iawn o fywydau pobl, ond yr anghenraid o ran iechyd y cyhoedd yw cyfyngu ar gynulliadau cyhoeddus a sicrhau, o dan yr amgylchiadau cyfyngedig pan gaiff pobl ymgynnull, y

cynhelir pellter corfforol gymaint â phosibl. Mae’r darpariaethau ar fynd i angladdau wedi eu diwygio wedi hynny gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/399 (Cy. 88)).

5.4. Un maes lle y mae darpariaeth benodol wedi ei gwneud o ran Cymru yn unig yw mewn perthynas â chau llwybrau troed a thir penodol a chyfyngiadau ar fynediad iddynt a oedd wedi eu cynnwys yn gyntaf yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws: Cau Busnesau Hamdden, Llwybrau Troed a Thir Mynediad) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/334 (Cy. 76)) mewn ymateb i bryderon ynghylch niferoedd y bobl a oedd yn teithio i dir cyhoeddus penodol fel rhan o’u hymarfer corff yn ystod y cyfnod hwn o argyfwng (yn benodol, y niferoedd mwyaf erioed a deithiodd i Ben-y-Fan). Ymateb i bryderon penodol yng Nghymru yw hyn.

5.5. Mae’r Llywodraeth hefyd wedi arddel safbwynt ychydig yn wahanol o ran agweddau penodol ar orfodi’r Rheoliadau. Er enghraifft, mae’r Llywodraeth yn ystyried ei bod yn briodol i bŵer mynediad gael ei nodi’n glir yn y Rheoliadau er mwyn rhoi sicrwydd i’r rheini sy’n gorfodi’r Rheoliadau (a’r rheini a all fod yn destun arfer y pwerau hynny) o ran y gallu i fynd i fangre i orfodi unrhyw agwedd ar y Rheoliadau.

5.6. Yn yr un modd, roedd y Llywodraeth yn ystyried ei bod yn bwysig yng Nghymru fod yn glir y gall unrhyw fath o sefydliad (megis partneriaethau neu gymdeithasau anghorfforedig eraill) gyflawni drosedd o dan y Rheoliadau. Gall hyn fod yn arbennig o berthnasol i’r cyfyngiadau a’r gofynion sy’n ymwneud â mangreoedd busnes.

5.7. Mae’r swm sy’n daladwy o dan Hysbysiad Cosb Benodedig yng Nghymru yn dyblu i £120 yr ail dro y dyroddir hysbysiad o’r fath ac mae’n parhau’n £120 ar gyfer pob hysbysiad dilynol. Dylid nodi bod opsiwn ar gael, mewn achosion difrifol, i fwrw ymlaen ag euogfarn droseddol ac yn yr achos hwnnw, dirwy yw’r gosb (heb derfyn ar y ddirwy bosibl y caniateir ei gosod). Mae’r Gwasanaethau Cyfreithiol hefyd wedi nodi bod y Rheoliadau yn rhoi disgresiwn i leihau’r swm sy’n daladwy os telir y swm o fewn 14 o ddiwrnodau. Mae hyn yn rhoi rhywfaint o ddisgresiwn i’r awdurdod gorfodi gan ddibynnu ar amgylchiadau’r achos o dan sylw.

5.8. Mae’r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol ac yn gymesur â’r amgylchiadau yng Nghymru yn ystod y pandemig. Yn ddiamau, gellir dweud yr un peth am y rheoliadau cyfatebol yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, y mae pob un ohonynt yn wahanol. Roedd y Llywodraeth wedi synnu’n fawr, felly, o weld cyfeiriad at y ffaith y gallai gwahaniaethau yn y gyfraith fod yn gyfystyr ag “anghydraddoldeb” o bosibl. Mae’r gyfraith yn aml yn wahanol ledled y Deyrnas Unedig o ganlyniad i’r pwerau sydd wedi eu breinio yn y deddfwrfeydd a’r llywodraethau datganoledig.

**Llywodraeth Cymru**
**28 Ebrill 2020**